



Adroddiad Swyddog ar gyfer Cyngor yr Undeb
Dydd Llun 30 Hydref, 6pm
Prif Ystafell Undeb y Myfyrwyr

Darparwyd yr adroddiad gan Bruce Wight, Swyddog Datblygu'r Undeb.

Llesiant (Molly)

- Gweithio gyda'r Gymdeithas Gwau ar sesiynau 'Gwnïo a Chwyno' i wella iechyd meddwl a darparu lle diogel i bobl gael ymlacio.
- Vagina monologues - rydyn ni wedi cael yr hawliau, a chynhelir y clyweliadau'r wythnos hon; wedyn bydd yr ymarferion yn cael eu cynnal a byddwn yn mynd ati i hyrwyddo'r sioe.
- Newid y diwylliant, gan weithio gyda'r tîm Cymorth i Fyfyrwyr i greu gwell system ar gyfer reportio aflonyddu a chamdriniaeth rywiol ar y campws
- Cynhelir panel i drafod trais ar sail rhywedd ar 28 Tachwedd. Trafodir yr hyn sy'n cael ei wneud yn genedlaethol ac yn lleol; mae amryw o siaradwyr wedi cael eu trefnu a bydd amserlen ar gael yn fuan

Academaidd (Emma)

- Trefnwyd ein Ffair Swyddi rhan-amser a Gwirfoddoli gyntaf ar 17 Hydref, oedd yn llwyddiannus. Roedd hyn yn un o'r pethau yr addewais i ei wneud fel rhan o fy mwriad i weithio'n fwy clòs â'r gwasanaeth gyrfaoedd er mwyn datblygu cyflogadwyedd.
- Cefais gyfarfod â'r Swyddfa Ansawdd a Chofnodion Academaidd i drafod y canllawiau parthed amgylchiadau arbennig ac estyniadau. Gallwch nawr ofyn i fferylllydd ysgrifennu nodyn i chi, yn hytrach na chael un gan feddyg, a byddwn yn parhau i adolygu'r mathau o dystiolaeth y gellir eu defnyddio.
- Ar hyn o bryd yn gweithio gyda Chymorth i Fyfyrwyr i greu cwricwlwm mwy cynhwysol, a chynnig asesiadau amgen a theg ar draws pob adran.
- Adolygwyd ein siarter cyflogaeth ar gyfer Ôl-raddedig gyda'n Swyddog ÔR, Alex (parhad o llynedd) ac rydyn ni wrthi'n cyhoeddi hwn, yn ogystal â gweithio ar ymgyrch i gael cyflog teg i athrawon Ôl-raddedig.

Cyfleoedd (Jess)

- Digwyddiadau hyd yma - RhagLas, Wythnos y Glas, hyfforddiant pwyllgorau a Nôl i Aber ar y penwythnos sydd newydd fynd heibio! Mae'r rhain i gyd wedi bod yn llwyddiannus, a dwi'n edrych ymlaen at sefydlu Nôl i Aber fel digwyddiad blynyddol!
- Wythnos Mae'r Ferch Hon yn Gallu yw 20-26 Tachwedd, a dwi'n teimlo'n gyffrous cael annog menywod i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynhwysol a diogel ar y campws!
- O'r diwedd, mae pethau wedi gwella o ran storio ar y campws. Mae'r cytiau mwnci bellach wedi cael eu clirio a gosodwyd cypyrddau a biniau newydd er mwyn i glybiau gadw eu cyfarpar yn ddiogel gyda chlo *Salto*.

Materion Cymreig ac UMCA (Gwion)



- GwNaeFWA - Cynhelir y digwyddiad mwyaf yng nghalendr UMCA, a digwyddiad Cymraeg mwyaf y Brifysgol, sef y Ddawns Rhyng-gol, ymhen ychydig wythnosau, sef 17/18 Tachwedd.
- Byddwn yn croesawu holl gymdeithasau Cymraeg y prifysgolion eraill yng Nghymru i Aberystwyth ar gyfer gig ar y nos Sadwrn!
- Mae ymgyrch Ail-agor Pantycelyn yn dal i fynd rhagddi, gyda thrafodaethau pwysig i'w cynnal y mis hwn. Bydd pob top UMCA ar gyfer y Rhyng-gol yn cynnwys 'Pantycelyn 2019' er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch!
- Cynhelir Sŵn (Noson Gymraeg yn yr Undeb) ar 9 Tachwedd; y thema yw "Eich Swydd Ddelfrydol!"
- Mae gwersi Cymraeg am ddim ar gael, cysylltwch â Gwion!
- Mae UMCA hefyd yn gwneud "Tashwedd", (Movember), er mwyn codi arian drwy ein swyddogion RAG.

Swyddog Datblygu'r Undeb (Bruce)

- Byddaf yn canolbwyntio ar gael y neges allan eleni, felly dwi'n ceisio cwrdd â phob myfyriwr yn Aberystwyth er mwyn cael adborth perthnasol y gallaf wedyn ei fwydo i mewn i'r system, er mwyn helpu'r undeb i ddatblygu a thyfu.
- Dyma'r tair rheol allweddol: #1 peidiwch â lladd neb, #2 peidiwch â bod yn goc-oen, #3 wyneb poker
- Dylai teils UM ar ApAber fod ar gael yn fuan.
- Dwi wedi treulio'r mis cyntaf yn dileu'r digwyddiadau Ffiesta Ffug a gwella ein cyfathrebu drwy Facebook a'n gwefan, a hefyd sicrhau bod digwyddiadau min-nos Wythnos y Glas yn dda.
- Rydyn ni wedi ein hyfforddi ar gyfer *Prevent* fel staff UMAber.
- Dwi wedi cadeirio Bwrdd yr Ymddiriedolwyr am y tro cyntaf!
- Llauer o gydweithredu rhyngwladol - Cyflwynodd Cedric (Swyddog Rhyngwladol) a fi drafodaeth ar gyfer yr holl fyfyrwyr rhyngwladol.
- Llauer o gydweithredu amgylcheddol - Mae gan Matthew (Swyddog Amgylchedd a Chynladwyedd) ddau bolisi sy'n ymwneud â rheoli gwastraff mewn llety.
- Rydyn ni wedi gwella'r arwyddion o amgylch yr adeilad, gan dynnu hen arwyddion i lawr a helpu i osod arwyddion newydd sydd â'n brand ni arnyn nhw.
- Llauer o gynrychiolaeth Alumni - yn arbennig fideo ar gyfer yr Hen Goleg gyda Chymdeithas yr Hen Fyfyrwyr, sydd i'w ddefnyddio er mwyn helpu â'r cais am £10.4miliwn i adnewyddu'r Hen Goleg.
- Rydyn ni wedi gwneud trefniant ar gyfer Chwaraeon a Chymdeithasau gyda'r Gwasanaethau Masnachol yn yr adeilad hwn.
- Gwnes flaenoriaeth o fynd i holl Ddigwyddiadau Myfyrwyr Aber - mae dull Torri'r Iâ'n ffordd dda o sicrhau bod gennych chi gymaint o gyfleoedd â phosib i gwrdd â'ch gilydd.
- Byddwn yn trefnu digwyddiad Dydd Sul GoT yn y Cwtch gyda bargaen ar fwyd, fell dewch draw i wyllo Game of Thrones a mwynhau tipyn o fwyd, mae hyn oherwydd bod pobl wedi gofyn am ddigwyddiad lle na chaiff alcohol ei yfed.